

CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Hysbysiad Statudol - Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Sarah Morgan,
Prif Swyddog Addysg
Cyngor Dinas Casnewydd
Canolfan Ddinesig
Casnewydd,
NP20 4UR



Hysbysir trwy hyn, yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Dinas Casnewydd, wedi ymgynghori â'r bobl angenrheidiol, yn cynnig cynyddu capasiti cyffredinol Ysgol Bryn Derw, Casnewydd gan 28 lle o fis Ebrill 2022.

Mae Ysgol Bryn Derw yn ysgol arbennig a gynhelir gan y gymuned cyfrwng Saesneg a gynhelir gan Gyngor Dinas Casnewydd ar gyfer disgyblion rhwng 3 a 19 oed sydd â diagnosis o Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig (ASD) ac anawsterau dysgu cysylltiedig, na all y ddarpariaeth brif ffrwd na'r Uned Adnoddau Dysgu (UAD) ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol. Cyfeiriad yr ysgol yw Melfort Road, Casnewydd, NP20 3FQ. Seilir derbyniadau i'r ysgol ar asesiadau angen fel y'i pennir gan y Prif Swyddog Addysg.

Agorodd yr ysgol yn wreiddiol ym mis Medi 2017 ar gyfer 48 o ddisgyblion ac fe'i hehangwyd i ddarparu ar gyfer 68 o ddisgyblion o fis Ionawr 2020 yn dilyn adnewyddu adeilad y Rhandy ar y safle. Ym mis Ebrill 2021, roedd 71 o ddisgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol.

Bydd y cynnig hwn yn golygu creu 28 o leoedd ychwanegol i ddisgyblion drwy sefydlu canolfan Cyfnod Sylfaen pwrpasol yn Blaen-y-Pant Crescent, Malpas, Casnewydd, NP20 5QB. O ganlyniad, bydd capasiti ysgol cyffredinol Ysgol Bryn Derw yn cynyddu i 96 o 25 Ebrill 2022.

Mae'r Cyngor yn darparu trafniadaeth am ddim i ddisgyblion cymwys pan fo'n briodol ar gyfer anghenion unigol. Nid fydd y cynnig yn effeithio ar y ddarpariaeth hon.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r sylwadau wedi'u gwneud gan yr ymgynghoreion, ymatebion y cynigiwr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn <http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx>.

Cyfnod Gwrthwynebu

O fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, sef hyd at **11 Tachwedd 2021**, caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion yn ysgrifenedig neu dros e-bost.

Dylid anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost i school.reorg@newport.gov.uk. Dylid anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Gyngor Dinas Casnewydd, at sylw'r Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg, Ystafell 425w, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau ar y gwrthwynebiadau hynny, pan roddir gwybod i randdeiliaid am benderfyniad y cynnig.

Llofnod:

Prif Swyddog Addysg
ar ran Cyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR
Dyddiedig: **15 Hydref 2021**